

Cyngor Sir Penfro
Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017–2033
ARCHWILIAD
Pembrokeshire County Council
Revised Local Development Plan 2017–2033
EXAMINATION

Arolygydd / Inspector:
Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI

Swyddog Rhaglen / Programme Officer:
Deborah Williamson

ff/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk

Harriet Lavender
Pennaeth Cynllunio / Head of Planning
Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Hwlfordd / Haverfordwest
Sir Benfro / Pembrokeshire
SA61 1TP

27 Gorffennaf 2026

Annwyl Ms Lavender

Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2 – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau

Ysgrifennaf ynghylch y cyfarfod archwiliol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026.

Diben y cyfarfod hwn oedd trafod pryderon sylweddol a godwyd ynghylch effeithiau posibl Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Benfro 2 ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) morol ac afonol. Mae nodyn o'r cyfarfod hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan yr archwiliad (ED22) ac mae ymatebion i bwyntiau gweithredu wedi'u cyflwyno gan eich awdurdod a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Yn ganolog i'r cyfarfod oedd cyflwyniad CNC ar ei Gynllun Adfer Maethynnau Dalgylch sy'n dod i'r amlwg. Mae camau 1 a 2 o'r gwaith hwn i fod i gael eu cyhoeddi erbyn mis Hydref 2026 a byddant yn cyfrifo capasiti maethynnau amcangyfrifedig o fewn dalgylchoedd yr ACA. Bydd hefyd yn nodi camau gweithredu CNC, gan gynnwys mesurau adfer a lliniaru, a fydd yn cael eu datblygu ymhellach mewn camau dilynol yn ystod 2027.

Er bod CNC yn arwain y gwaith hwn, bydd rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyngor a Llywodraeth Cymru ymhlith eraill, yn hanfodol i gyflawni ei ganlyniadau. Mae parodrwydd clir ymhlith cyfranogwyr yn y cyfarfod archwiliadol i gydweithio a chyflwyno'r cynllun adfer maethynnau dalgylch mewn modd amserol. Yn wir, darparodd y cyngor wybodaeth

am ei fentrau parhaus, megis cynllun credyd maetholion, a allai gyd-fynd â gwaith y cynllun adfer maethynnau dalgylch.

Ar ôl myfyrio ar y drafodaeth yn ystod y cyfarfod, rwyf wedi dod i'r casgliad y dylai'r cynllun symud ymlaen i'r cam nesaf, a fydd yn cynnwys gwrandawiadau ar amrywiaeth o bynciau.

Dylwn bwysleisio nad yw bwrw ymlaen i wrandawiadau yn golygu fy mod wedi dod i'r casgliad bod y cynllun yn gadarn ar unrhyw un o'r materion hyn. Er bod y cyngor wedi ymateb ar faterion fel cronni cyfraniadau ariannol, mae hefyd yn amlwg y bydd angen gwaith pellach i fireinio ei ddull a darparu'r sicrwydd angenrheidiol ar gyflawni'r cynllun drwy'r archwiliad. Felly bydd angen profi'r dystiolaeth, gan gynnwys y cynllun adfer maethynnau dalgylch, cynllun masnachu maethynnau a mentrau eraill sy'n dod i'r amlwg, trwy drafodaethau manwl yn y gwrandawiadau cyn gwneud unrhyw ganfyddiadau pellach.

Wrth symud ymlaen at wrandawiadau, bydd cydweithrediad a chefnogaeth rhanddeiliaid, gan gynnwys CNC, yn bwysig iawn, yn enwedig wrth gynnal ymrwymïadau i gynhyrchu camau 1 a 2 o'r cynllun adfer maethynnau dalgylch yr hydref hwn. O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, rwy'n rhagweld y bydd gwrandawiadau'n dechrau yn yr hydref, gyda'r sesiwn (neu sesiynau) maethynnau perthnasol yn digwydd ar ôl cyhoeddi gwaith cychwynnol y cynllun adfer maethynnau dalgylch.

Felly mae'n hanfodol fy mod yn cael gwybod am gynnydd y cynllun adfer maethynnau dalgylch a mentrau eraill y cyngor. Gallai unrhyw oedi gyda'r gwahanol ffrydiau gwaith effeithio ar gynnydd archwiliad y CDLl ac ni fyddai er budd unrhyw un i gychwyn rhagor o ataliadau, yn enwedig o ystyried yr amser sydd eisoes wedi mynd heibio ers cyflwyno'r cynllun.

O ystyried yr uchod, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth tai ddiweddaraf yn cael ei thrafod yn y gwrandawiadau sydd ar ddod, dylai'r cyngor ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gyflenwad tir ar gyfer tai (hyd at 31 Mawrth 2026) erbyn dydd Gwener, 18 Medi.

Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan, trwy'r swyddog rhaglen, gyda manylion pellach am gamau nesaf yr archwiliad, gan gynnwys rhaglen ddrafft o wrandawiadau.

Rwyf wedi copïo'r llythyr a'r nodyn hwn i Lywodraeth Cymru ac CNC.

Yn gywir

Ian Stevens

Arolygydd

Cc Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru